| **Offeryn Sbarduno Uwchgyfeirio RAG Generig i feirysau anadlol y gaeaf ar gyfer gwisgo masg** | |
|---|---|
| Mae offeryn Sbarduno Uwchgyfeirio RAG i feirysau anadlol y gaeaf ar gyfer gwisgo masgiau wedi'i gynllunio fel cymorth ymarferol i gefnogi sefydliadau i asesu risg a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch pryd i weithredu mesurau gwisgo masgiau cyffredinol. Nid yw'n disodli barn broffesiynol na pholisïau lleol ond mae'n gwasanaethu fel canllaw strwythuredig i helpu i werthuso ffactorau allweddol megis risg trosglwyddo, bregusrwydd poblogaethau cleifion, ac ystyriaethau gweithredol. Drwy ddarparu fframwaith clir, nod yr offeryn hwn yw gwella cysondeb a hyder wrth wneud penderfyniadau yn ystod cyfnodau o risg uwch o haint feirws anadlol. | |
| **Gwyrdd – Risg Isel**<br>**Sbardunau:**<br>• Dim effaith ar staffio - <0.5%* absenoldeb<br>• Dim achosion/brigiad o achosion ar wardiau<br>• <10* cleifion mewnol sydd wedi cael prawf positif ar draws y sefydliad<br>• Gweithredu o fewn capasiti diogel gyda gallu ynysu llawn ac o fewn lefelau CRITCON cenedlaethol.<br>• Cyfradd isel yn ôl data cenedlaethol o feirysau anadlol mewn lleoliadau caeëdig (e.e. cartrefi gofal)<br>• Cyfradd isel o feirysau anadlol yn lledaenu o fewn y Boblogaeth | **Camau Gweithredu:**<br>• Atgyfnerthu rhagofalon sy'n seiliedig ar atal trosglwyddo heintiau.<br>• Parhau i brofi ffitrwydd ar gyfer rhaglen Cyfarpar Diogelu Anadlol (RPE)<br>• Hyrwyddo rhaglen frechu staff<br>• Datblygu llwybrau anadlol<br>• Datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer feirysau'r gaeaf<br>• Adolygu adnoddau staff/cleifion (mewnrwyd/gweminar)<br>• Sefydliad i fod yn wyliadwrus; dilyn canllawiau<br>• Triongli data Iechyd Cyhoeddus Cymru, data sefydliadol a'r modelu epidemioleg wythnosol<br>• Cyfarfodydd llif cleifion dyddiol<br>• Y Grŵp Atal Heintiau a Stiwardiaeth Wrthficrobaidd yn parhau i gyfarfod yn fisol (busnes fel arfer)<br>• Sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith ar gyfer archebu/caffael mwy o gyfarpar diogelu personol (PPE). |
| **Melyn – risg gymedrol**<br>**Sbardunau**<br>• Absenoldeb staff >0.5% a <1% (dim mwy na 3 maes dros 5%)*<br>• <5* achosion/brigiadau o achosion<br>• 11-30* neu lai o gleifion mewnol yn bositif (yn barhaus am 5-7 diwrnod) ar draws y sefydliad | **Camau Gweithredu:**<br>• Defnyddio offer asesu risg penodol i leoliadau (sector acíwt, gofal cymunedol / sylfaenol, a'r sector cartrefi gofal) i gefnogi sefydliadau i gymhwyso Hierarchaeth Mesurau Rheoli<br>• Atgyfnerthu rhagofalon gan gynnwys RPE (ystyried defnyddio gorchuddion wyneb mewn ardaloedd lle mae nifer yr achosion yn uchel a mannau mynediad e.e. yr Adran Achosion Brys, unedau asesu) |

| | |
|---|---|
| • Nifer cyfyngedig o gleifion ar beiriannau anadlu yn yr Uned Gofal Dwys oherwydd feirysau anadlol y gaeaf yn unol â lefelau CRITCON cenedlaethol<br>• Achosion/digwyddiadau lluosog* mewn Lleoliadau Caeëdig<br>• Cynnydd yn nifer yr achosion o feirysau anadlol sy'n cylchredeg o fewn y Boblogaeth | • Targedu hyrwyddo brechlynnau mewn ardaloedd lle mae nifer isel o bobl yn cael y brechlynnau.<br>• Cyfarfodydd uwchgyfeirio dyddiol (timau Atal a Rheoli Heintiau a llif cleifion)<br>• Rhybuddio’r Tîm Gweithredol<br>• Cyswllt â thîm Diogelu Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru / Diogelu Iechyd lleol<br>• Cyflwyno 'ymweld â phwrpas' ar faeau/wardiau caeëdig<br>• Sicrhau bod digon o stoc o orchuddion wyneb Math IIR mewn wardiau/mannau derbyn.<br>• Cynyddu cyfathrebiadau â staff a’r cyhoedd.<br>• Adroddiad sefyllfa ar dderbyniadau dyddiol ar gyfer feirysau’r gaeaf<br>• Adolygiad epidemioleg/modelu wythnosol<br>• Cynyddu profion amlddadansoddiad yn ôl y cyfarwyddyd<br>• Glanhau Adrannau Achosion Brys, Unedau Meddygol Acíwt, a phwyntiau mynediad eraill yn well<br>• Y Grŵp Atal Heintiau a Stiwardiaeth Wrthficrobaidd yn parhau i gyfarfod yn fisol<br><br>**Meini Prawf Llacio Cyfyngiadau**<br>• Mae absenoldebau staff yn dychwelyd i <0.5%* am 7 diwrnod yn olynol<br>• Achosion wedi'u lleihau i <2*<br>• Achosion cleifion mewnol sydd wedi cael prawf positif yn gyson <10*<br>• Cleifion â feirysau anadlol y gaeaf sydd ar beiriannau anadlu yn yr Uned Gofal Dwys yn dychwelyd i'r llinell sylfaen<br>• Digwyddiadau mewn lleoliadau caeëdig yn dychwelyd i'r llinell sylfaen<br>• Llinell sylfaen y boblogaeth yn sefydlogi. |
| **Coch – risg uchel**<br>**Sbardunau** | **Camau Gweithredu:** |

<table>
<tr>
<td>

- Absenoldeb staff >1% (sawl ward/adran wedi'u heffeithio)*
- >6* neu fwy o achosion/brigiad o achosion mewn wardiau
- >31* neu fwy o gleifion mewnol wedi cael prawf positif (yn barhaus dros 5-7 diwrnod)
- >30%* cleifion ar beiriannau anadlu yn yr Uned Gofal Dwys oherwydd feirysau anadlol yn unol â lefelau CRITCON cenedlaethol
- >10* neu fwy o Leoliadau Caeëdig yn adrodd am gynnydd mewn achosion
- Lefelau uchel* o feirysau anadlol y gaeaf yn cylchredeg o fewn y boblogaeth.

</td>
<td>

- Gorchuddion wyneb gorfodol i staff, ymwelwyr a chleifion ar draws y sefydliad gan gynnwys lleoliadau caeëdig.
- Defnyddio offer asesu risg penodol i leoliadau (sector acíwt, gofal cymunedol / sylfaenol a’r sector cartrefi gofal) i gefnogi sefydliadau i gymhwyso'r Hierarchaeth Mesurau Rheoli
- Asesu risg gyda’r Adran Atal Heintiau, Microbioleg, tîm Iechyd y Cyhoedd lleol ac arweinydd gweithredol
- Atgyfnerthu rhagofalon yn enwedig y defnydd o RPE
- Rhybuddio’r Tîm Gweithredol a darparu adroddiadau sefyllfa dyddiol
- Rhoi llwybrau anadlu ar waith
- Dwysáu brechu wedi'i dargedu
- Adolygu protocolau ymweld h.y., 'ymweld â phwrpas' yn unol ag uwchgyfeirio.
- Uwchgyfeirio gwasanaethau/cynllunio parhad busnes
- Ystyried cyfyngiadau ar ymweliadau ac archwiliadau nad ydynt yn hanfodol
- Gweithredu Strategaeth Gyfathrebu (staff a'r cyhoedd)
- Diweddariad o ddydd Llun i ddydd Gwener drwy gyfarfod Llif y System. Penwythnosau – diweddariad drwy gyfarfodydd ar draws safleoedd

**Meini Prawf Llacio Cyfyngiadau:**

- Absenoldeb staff yn gyson <1% am 7 diwrnod yn olynol*
- Achosion wedi'u lleihau i <5*
- Achosion cleifion mewnol sydd wedi cael prawf positif yn gyson <30*
- Cleifion sydd ar beiriannau anadlu yn yr Uned Gofal Dwys yn dychwelyd i 20%*
- Nifer yr achosion mewn lleoliadau caeëdig yn lleihau'n sylweddol.
- Nifer yr achosion yn y boblogaeth yn sefydlogi.

</td>
</tr>
</table>

* canrannau/niferoedd yn dibynnu ar y sefydliad.

Cyfeiriadau:


- NIPCM - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cymdeithas Gofal Dwys | Lefelau CRITCON: beth yw eu pwrpas a sut maen nhw'n cael eu defnyddio